# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Comfort Care Homes (Bryn Illtyd) Ltd**

**Cartref Preswyl Bryn Illtyd**
**Heol y Mynydd Pen-bre**
**Porth Tywyn**
**SA16 0AJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/12/2022

**_Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022._**

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Comfort Care Homes (Bryn Illtyd) Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Comfort Care Homes (Bryn Illtyd) Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 39 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 25/03/21 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda, ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd garedig a gofalgar, gan ddarparu cymorth priodol. Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt. Mae pob unigolyn yn cael ei annog i leisio barn ar unrhyw faterion sy'n effeithio arno. Mae'r cofnodion gofal yn disgrifio'n glir sut y dylai'r gweithwyr gofal ddiwallu anghenion unigol y bobl. Mae'r cartref yn cadw pob person yn ddiogel drwy ddefnyddio mesurau rheoli heintiau cadarn.

Mae'r rheolwr yn bwrw ati i ddatblygu gofal a chymorth y bobl lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd fel rhan o'i ymweliadau o dan reoliad 73. Mae angen gwella tystiolaeth yr unigolyn cyfrifol i ddangos ei fod wedi siarad â'r bobl a'r gweithwyr gofal. Mae'r gweithwyr gofal yn dweud eu bod yn teimlo bod y rheolwr yn eu cefnogi a'u bod yn cael eu goruchwylio'n unigol er mwyn trafod eu gwaith. Mae amrywiaeth o hyfforddiant staff ar gael er mwyn helpu'r gweithwyr gofal i gefnogi'r bobl yn ddiogel ac yn effeithiol.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu parchu ac mae ganddynt ddewis a rheolaeth dros eu bywydau dyddiol. Mae amrywiaeth eang o ddulliau cyfathrebu yn sicrhau bod y bobl yn gallu lleisio eu barn ac mae'n amlwg bod eu dymuniadau yn bwysig a'u bod yn cael eu hystyried.

Mae'r bobl yn cael gofal gan aelodau o staff sydd â'r wybodaeth a'r profiad i'w galluogi i weithio mewn ffordd hyblyg i ddiwallu anghenion yr unigolyn.

Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn cael eu cefnogi a'u hannog i gyflawni eu potensial drwy'r cymorth a gânt i gynnal eu hannibyniaeth, eu diddordebau a'u cydberthnasau teuluol/cymdeithasol.

Mae'r bobl yn ddiogel am fod asesiadau risg yn eu hamddiffyn rhag niwed ac yn hybu eu hannibyniaeth.

Caiff cydberthnasau teuluol eu cynnal oherwydd gall perthnasau ymweld â'r gwasanaeth a chysylltu â'r gwasanaeth i siarad ag unigolyn neu holi amdano.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, pan fo eu hangen arnynt. Gall y bobl alw am sylw os ydynt yn eu hystafelloedd eu hunain a gwelsom fod y staff yn ymateb i'r galwadau hyn yn gyflym. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn ofalgar ac yn gefnogol i'r bobl drwy gydol ein hymweliad arolygu. Mae anghenion gofal pob person wedi'u cofnodi'n glir ac mae'r staff gofal yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r drefn o ddydd i ddydd. Adolygir y cynlluniau yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu anghenion presennol y bobl. Mae angen gwneud rhywfaint o welliannau wrth gofnodi sut y caiff y bobl eu cynnwys yn y broses cynllunio gofal a phwy oedd yn rhan o'r broses honno. Mae'r gweithwyr gofal yn cadw cofnodion cywir i ddangos bod y bobl yn cael eu cefnogi fel y disgrifir yn eu cynlluniau.

Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ôl yr angen. Mae'r bobl wedi'u cofrestru â meddyg teulu lleol. Cedwir cofnodion o'r holl apwyntiadau a chanlyniadau i'w hadolygu yn ôl yr angen. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal pwysau iach a chaiff deietau eu hadolygu pan fo angen. Mae digon o ddiodydd ar gael i'r bobl drwy gydol y dydd.

Caiff y bobl eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau os ydynt yn dewis gwneud hynny. Dywedodd perthnasau wrthym fod eu hanwyliaid yn cael eu cadw'n brysur a'u bod yn fodlon eu byd. Mae'r bobl yn mwynhau eu profiad yn ystod prydau bwyd a'r prydau bwyd a ddarperir; cânt eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl a rhoddir cymorth iddynt pan fo angen.

Mae systemau ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel yn y gwasanaeth. Mae'r bobl yn cael cymorth priodol gyda'u meddyginiaeth, sy'n helpu i'w cadw'n iach. Roedd yr holl gofnodion a welsom wedi'u cwblhau'n gywir.

Mae'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn dda. Mae'r staff gofal yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol yn unol â'r canllawiau cyfredol. Mae'r staff yn cael profion COVID-19 rheolaidd. Gofynnwyd i ni am dystiolaeth ein bod wedi cael canlyniad negatif mewn prawf llif unffordd cyn mynd i mewn.

## Yr Amgylchedd

Ar y cyfan, mae'r bobl yn cael cymorth mewn amgylchedd addas. Mae'r eiddo yn gartrefol, yn gynnes ac yn lân. Mae'r bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn hapus yn byw yno. Mae ystafell breifat pob person yn ddiogel, yn fawr ac wedi'i phersonoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r person, gydag eitemau fel ornamentau, llenni a deunyddiau, lluniau a chelfi. Mae ardaloedd cymunedol gwahanol ar gael i'r bobl ac mae gerddi yn amgylchynu'r eiddo.

Mae rhai ardaloedd o'r cartref wedi cael eu hailaddurno a chawsom wybod bod y gwaith ailaddurno hwn yn digwydd drwy'r cartref i gyd mewn camau, un ystafell ar y tro. Mae'r ardaloedd dan sylw wedi cael eu hailaddurno'n dda ac mae hyn wedi creu ystafell olau a glân i bawb. Fodd bynnag, mae angen i'r darparwr sicrhau nad yw'r cartref yn teimlo'n glinigol a'i fod yn parhau i deimlo fel cartref yn ogystal â dangos sut mae'r bobl wedi cyfrannu at y penderfyniadau a wnaed am y gwaith ailaddurno, h.y., wedi helpu i ddewis lliw ac ati.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag ymwelwyr diawdurdod, gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn a chofnodi ei ymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Caiff gwybodaeth bersonol y bobl, ynghyd â chofnodion personél y cyflogeion, eu storio'n ddiogel, a dim ond aelodau awdurdodedig o'r staff all eu gweld.

Mae gweithdrefnau clir ar gyfer rheoli heintiau ar waith. Mae allanfeydd tân yn glir o rwystrau ac mae cofnodion cynnal a chadw yn dangos y caiff profion larwm tân eu cynnal bob wythnos. Caiff yr holl ddeunyddiau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n gywir, yn unol â Rheoliadau COSHH 2002.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau ar waith sy'n helpu i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei oruchwylio'n dda, yn ogystal â datblygiad parhaus, ond mae angen gwella hyn. Cadarnhaodd y gweinyddwr a'r rheolwr gweithrediadau fod yr unigolyn cyfrifol mewn cyswllt rheolaidd â'r cartref, ac yn gefnogol o'r tîm rheoli a'r staff gofal. Gwelsom gofnodion o ymweliadau'r unigolyn cyfrifol a'r adroddiadau a gwblhawyd.

Gwelsom adroddiadau ar ansawdd y gofal a chofnodion rheoliad 73 a gwblhawyd a oedd yn nodi'r hyn a oedd wedi cael ei weld a'i archwilio. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau wrth gofnodi a dangos tystiolaeth o farn y bobl sy'n byw yn y cartref, eu teuluoedd, a'r staff gofal.

Yn ystod sgyrsiau â'r staff, gwnaethant ddweud, "*Supervision is good it is an equal share of time, management have what they have to say and I get to say what I need to say".*

*"It has been a hard couple of months as we have been short staffed so it's been a rush, but we have new staff coming which will get us back to normal"*

*"The manager is good and works hands on coving shifts, so she knows what it's like, I don't think senior managers really understand and are not as supportive. It can feel like senior managers just want to save money"*

*"We work well as a team to support each other, but it can be hard"*

Roedd hi'n amlwg o'r sgyrsiau a gawsom â'r staff eu bod yn teimlo bod y rheolwr yn eu cefnogi ond nad ydynt yn teimlo bod yr unigolyn cyfrifol a'r uwch-reolwyr yn gefnogol nac yn deall yr anawsterau. Mae hyn wedi gwneud i'r staff deimlo bod arbed arian yn bwysicach.

Mae'r staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol a'r hyfforddiant arbenigol gofynnol. Gwnaethom siarad â staff gofal amrywiol yn y cartref y mae pob un ohonynt wedi cael hyfforddiant sefydlu, ac mae ganddynt wybodaeth glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau, a dealltwriaeth dda ohonynt. Mae'r trefniadau ar gyfer cofnodi a monitro hyfforddiant wedi gwella'n sylweddol a chaiff hyfforddiant ei fonitro drwy sesiynau goruchwylio ac arfarniadau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 21 | Nid yw ffeiliau gofal unigol yn cael eu cwblhau'n gyson, yn glir, yn gywir ac nid ydynt yn cynnwys y wybodaeth gyfredol sydd ei hangen i gefnogi anghenion gofal unigol. | Cyflawnwyd |
| 36 | Nid yw'r darparwr gwasanaeth yn cadw cofnod clir o'r hyfforddiant craidd na'r hyfforddiant arbenigol sy'n ofynnol i gefnogi'r bobl yn y gwasanaeth | Cyflawnwyd |
| 12 | Nid yw'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod cynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol iddynt fod ar waith yn cael ei ddiweddaru i gynnwys y wybodaeth gywir. | Cyflawnwyd |
| 58 | Caiff meddyginiaeth ei storio'n anghywir. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/01/2023